**TGAU**

3010NA0-1

W22-3010NA0-1

**DYDD IAU, 13 IONAWR 2022 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG
## UNED 1: Barddoniaeth
## HAEN UWCH

1 awr 15 munud

**DEUNYDDIAU YCHWANEGOL**

Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).

**CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR**

Defnyddiwch inc neu feiro du.
**Un cwestiwn gorfodol** ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.
Ni chaniateir defnyddio geiriaduron.
Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.

**GWYBODAETH I YMGEISWYR**

Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.
Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

**1.** Darllenwch y **ddwy** gerdd ganlynol yn ofalus.
**Yn y cerddi, mae'r ddau fardd yn dangos yr awydd i fod yn rhydd.**

**Cymharwch** y **ddwy** gerdd gan ddangos sut maen nhw'n **debyg** a/neu'n **wahanol**. Wrth drafod y cerddi dylech gyfeirio at y canlynol:

- cynnwys a neges / themâu'r cerddi
- sut mae'r beirdd yn cyfleu eu syniadau neu'n creu awyrgylch yn y cerddi (nodweddion arddull, mesurau ac ati)
- eich ymateb personol i'r cerddi

Wrth ateb, cofiwch **ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol** i gefnogi'ch sylwadau. **[40]**

**Rhaid Peidio Dawnsio...**

Rhaid peidio dawnsio yng Nghaerdydd
rhwng wyth a deg y bore,
mae camerâu yr Heddlu Cudd
a'r Cyngor am y gore
yn edrych mas i weld pwy sydd
yn beiddio torri'r rheol
na chaiff neb ddawnsio yng Nghaerdydd
ar stryd na pharc na heol.

Mae dawnsio wedi deg o'r gloch
yn weithred a gyfyngir
i chwarter awr mewn 'sgidiau coch
mewn mannau lle'r hebryngir
y dawnswyr iddynt foch ym moch,
heb oddef stranc na neidio,
ac erbyn un ar ddeg o'r gloch
rhaid i bob dawnsio beidio.

Ond ambell Chwefror ar ddydd Iau,
pan fydd y niwl a'r barrug
yn fwgwd am y camerâu
fel bo'r swyddogion sarrug
yn swatio'n gynnes yn eu ffau
gan ddal diodydd poethion,
mae'r stryd yn llawn o naw tan ddau
o ddawns y sodlau noethion.

*Emyr Lewis*

**Jîns**

Ta waeth, os wyf yn y tŷ,
neu allan, os yw'n t'wyllu
neu'n wawr, os ydyw hi'n wynt,
neu'n niwl yn llawn o helynt,
o'm mewn i y mae hi'n haf –
y mae denim amdanaf!

Yn fy *Levis* aflafar
wyf innau a'm sgwyddau'n sgwâr;
yn y dref rwy'n llenwi'r stryd,
yr wyf yn arwr hefyd!
Yn *rafin ac yn rêfiwr,
yn *deyrn ac yn *drwbadŵr.

Yn y pâr glas perygl wyf!
Hyder ar ddwy goes ydwyf!
Yn cŵl ac yn foi caled,
yn reiat croch, yn *street cred*.
Na, nid wyf yn ofni dim –
amdanaf y mae denim!

*Meirion MacIntyre Huws*

**rafin – tipyn o gymeriad*
**teyrn – brenin*
**trwbadŵr - perfformiwr*

**DIWEDD Y PAPUR**